# Y DINESYDD

*PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH*    RHAGFYR 1976    RHIF 36

# Ble mae'r Cymry'n cadw?

**Wythnos arbennig o dda i mi oedd yr wythnos 8-12 Tachwedd eleni a minnau'n cael gwledd odidog yma, yng Nghaerdydd. Nid mewn gwesty pedair seren, beth bynnag, er bod y wledd yn dechrau gyda medd ac yn cael ceiliog ffesant i ddilyn, heb sôn am lawer peth amheuthun arall, i'm denu oddi wrth fy egwyddorion llwyrymwrthodol a bwydlyseuol! Yr oedd y cwmni bach — rhy fach, a dweud y gwir — o'm cwmpas yn mwynhau'r seigiau yr un mor amlwg â minnau.**

Sut felly, ac ym mha le? Yn rhyfeddol iawn, yn Adeilad y Dynoliaethau yn gynta, ac wedyn yn Oriel, Charles St.; os nad ydych chi'n gyfarwydd â'r naill le na'r llall, gofynwch i Olygydd 'Y Dinesydd' heb oedi.


Ond sôn am wledd yr oeddwn. Y medd yn gynta — digon o fedd "melyn, melys" i fodloni pawb. "Talu eu ... medd" yr oedd y Gododdin, "y gwŷr a aeth i Gatraeth" yn ôl Aneirin, nid gydag arian ond gyda'u bywyd, mewn brwydr arswydus o ffyrnig. Un o'r caneuon hynaf ym marddoniaeth Gymraeg, wrth gwrs, yw "Canu Aneirin", canu sy'n moli gosgordd Mynyddawg Nwynfawr a gynlluniodd yr antur. Rhyfel, yn llawn gwroldeb a thrasiedi ochr yn ochr, sydd yn cael ei disgrifio yn yr Hen Ganu hwn, mewn iaith gyfoethog iawn ac ystyried pa mor ifanc yr oedd y Gymraeg y pryd hwnnw; iaith anodd i'w deal heb eglurhad yr arbenigwr, a braint fawr inni ydy cael yr Athro Jarman i draethu felly ar ei faes arbennig, a cholled fawr i chi sydd heb fynychu'r dosbarth yn Adeilad y Dynoliaethau ar nos Lun.

Ond efallai y byddai ceiliog ffesant a phethau felly yn well i'r chwaeth chi; yn anffodus iawn 'rydych chi wedi colli'r cyfle y tro yma, ac wn i ddim a ddaw ef yn ôl eto i'r bwrdd, oherwydd dim ond un ceiliog ffesant sydd ym marddoniaeth Robert Williams Parry — testun y Dr Meredydd Evans nos Fawrth — er bod llu o adar eraill yno, fel hwyaden a gwyddau, ieir a sguthan ac ati. Ond nid gwledd o gig a gwaed a geir yn nosbarth Dr Evans ond gwledd o farddoniaeth gywrain a synhwyrus, ac yma eto, braint inni yw cael ei sylwadau dwfn a threiddgar i'n helpu ni — i'n *gorfodi* ni, mewn gwirionedd — i ddeall rhywfaint o gymeriad cymhleth "Bardd yr Haf" a'i farddoniaeth.

Wedyn, nos Fercher, i Oriel, Charles St., i gael gwledd hollol wahanol, sef sgwrs gan y Dr Glyn Ashton — creawdwr Joe Haleliwia,

*(parhad ar dud. 2)*



CAN TA-TA
(yn arbennig i Alun Guy)

# Gron widd ddy wind?

Mae ditectifs yn chwilio am garped gwerth £2,500 a ddiflannodd o siop Howell's, Caerdydd yn ystod penwythnos olaf mis Tachwedd. Roedd y carped 5' x 4', a ddarluniai olygfa liwgar yn cynnwys ddau ffigur Dwyreinol ac asyn, ar astell arddangos yn y siop nes i rywun sylwi ei fod wedi diflannu brynhawn Sadwrn. Cred yr heddlu i'r lleidr rolio'r carped dan ei gesail a cherdded allan o'r siop heb i neb ei herio.

Carai'r Golygydd ddiolch i Goronwy Jones (gynt o adran garpedi Howell's) am y cerdyn post lliwgar (wel, coch o leiaf) a dderbyniodd ganddo o'r Bahamas yr wythnos hon. Roedd Goronwy druan wedi bod yn cwyno ers meityn fod angen gwyliau arno; teimlai fod pethau'n rhy boeth iddo yng Nghaerdydd, ac yr hoffai dreulio mis neu ddau mewn hinsawdd fwy cymhedrol i wella o hen anhwylder sydd wedi bod yn ei boeni yn ystod yr wythnosau diwethaf. Prif sumptom yr anhwylder hwn yw fod ei glustiau'n llosgi'n barhaol, hen beth annifyr, fel y gŵyr y Golygydd yn iawn. Pob hwyl iddo yno, a gobeithio y caiff adferiad buan.

# CÔR 'STEDDFOD

**Chi gantorion Caerdydd — mae'r gwahoddiad i chi ymuno â Chôr yr Eisteddfod Genedlaethol yn dal yn agored neu, o'i aralleirio, mae ar Gymru angen eich tonsls chi! Bydd yr ymarferion ar gyfer Cyngerdd y Cyhoeddi (nos Sadwrn, Gorffennaf 2il 1976) yn dechrau ar Ionawr 9fed 1977: fe'u cynhelir bob nos Sul yn y Tabernacl (7.45-9.30p.m.) a phob nos Fercher yn Ysgol Bryntaf (7.30-9.30p.m.).**

**Mae Cadeirydd y Pwyllgor Cerdd, Arwel Hughes, a'r Cor-feistr, Alun Guy am bwysleisio nad ydynt am dderbyn neb i'r Côr na fydd yn barod i FYNYCHU YMARFERION YN RHEOLAIDD — mae hyn yn holl-bwysig.**

**Felly, dewch bêr-ganiedyddion ymroddgar Caerdydd — mae'ch angen *chi* yn y Côr. Danfonwch eich enw, eich cyfeiriad, eich rhif ffôn a'ch llais (h.y. nodwch pa lais y byddwch chi'n ei ddefnyddio i ganu fel arfer) at Ysgrifennydd y Côr, R.E. Lindsay, 28 Heol Bryngwyn, Cyncoed, Caerdydd AR UNWAITH — mae'r amser yn fyr.**

# GOLYGYDDOL

Os mai Blwyddyn Dadl Fawr y Pafiliwn oedd 1976, hwyrach mai blwyddyn Dadl Fawr Ble i roi'r Pafiliwn fydd 1977, wrth i Bwyllgor yr Eisteddfod benderfynu ar safle i Eisteddfod Caerdydd, 1978.

Am amryfal resymau, gwrthodwyd y safle delfrydol (ym marn llawer) i Brifwyl Caerdydd, sef Parc Pontcanna. Bu son wedyn am fynd â'r Eisteddfod allan i Gae Ras Trelai, ond ddaeth dim byd o'r syniad hwnnw. Yn awr, mae'r ddadl yn llydan agored gydag enwau safleoedd mewn llefydd fel Pentwyn, yr Eglwys Newydd a Radur yn cael eu cynnig blith drafflith. Un ffactor sy'n gyffredin i'r rhain i gyd, sef eu bod i gyd allan yn y maestrefi, rai milltiroedd o ganol y ddinas.

Mae yna ddadleuon cryf dros fynd allan i un o'r maestrefi wrth gwrs, ond fe dybiem ni fod yna ddadl gryfach fyth dros beidio â cholli'r cyfle gwych hwn o roi ffocws cwbl Gymraeg, am wythnos yn eu hanes, i'r ddinas Seisnigaidd hon. O safbwynt y mwyafrif di-Gymraeg yn y cylch hwn, gallai'r Eisteddfod ddigwydd a darfod mewn rhyw gornel bellenig o'r brifddinas heb iddynt fod yn ymwybodol o'i bodolaeth hyd yn oed: dyna golli cyfle ardderchog i wneud miloedd o bobl yn ymwybodol o'u Cymreictod am y tro cyntaf erioed.

Mae Caerdydd yn ddinas anarferol iawn mewn un ffordd. Edrychwch ar fap ohoni, ac fe welwch fod calon y ddinas yn un llain gwyrdd, gydag erwau o gaeau agored yn gorwedd y naill ochr a'r llall i afon Taf. Gellwch gerdded yr holl ffordd o Gastell Caerdydd i fyny i'r Eglwys Gadeiriol yn Llandaf drwy'r caeau hyn sy'n ffurfio triongl anferth o wlad agored wedi ei ffinio gan Heol yr Eglwys Gadeiriol, Rhodfa'r Gorllewin a Heol y Gogledd. Prin fod yr un ddinas arall yng Ngwledydd Prydain mor ffodus â Chaerdydd yn hyn o beth — felly pam dim Eisteddfod Genedlaethol ym Mharc Pontcanna?

* * * *

Mae'n debyg fod rhai o ddarllenwyr *Y Dinesydd* wedi eu cythruddo gan gyfraniad diweddaraf "Y Dyn Dwad" yn rhifyn mis Tachwedd. Diolch i Mrs Bethan Roberts am fynd i'r drafferth o fynegi ei gwrthwynebiad mewn llythyr (yr unig berson i wneud hynny) — o ran hynny, Peter Davies oedd yr unig berson i fynegi ei werthfawrogiad o'r straeon hyn — diolch iddo yntau.

Hoffem bwysleisio unwaith eto fod y *Dinesydd* yn bapur i BAWB o bobl Caerdydd; ceisiwn adlewyrchu pob agwedd ar fywyd cyfoethog ac amrywiol Cymry'r brifddinas, a chynnwys rhywbeth at ddant pawb. Ni all ac ni fynn *Y Dinesydd* berthyn i un garfan arbennig yn y gymdeithas honno, waeth gymaint yr hoffai rhai pobl iddo wneud. Swyddogaeth y papur hwn yw cynnig llwyfan i syniadau a chwynion, daliadau a rhagfarnau, diddordebau ac obsesiynau *pob un* o drigolion Caerdydd sy'n fodlon cymryd y drafferth o ysgrifennu atom. *Goddefgarwch* yw'r gair allweddol mewn polisi o'r fath; na fydded i ni anghofio hynny.

* * * *

Mewn ysbryd o oddefgarwch a brawdgarwch, a gawn ni ddymuno Nadolig Llawen iawn i'n holl ddarllenwyr, a phob bendith yn y Flwyddyn Newydd. Edrychwn ymlaen at glywed rhagor, llawer rhagor, gan ein darllenwyr ym 1977.

# O'R POST

## Y Br G. Jones: Yn erbyn... ac o blaid

*......rhaid cyfadde i mi gael yr erthygl yn ddichwaeth, gyda'r llifeiriant rhegfeydd ynghyd â thema'r 'dyddiadur' yn merwino'r glust ac yn ddolur i'r llygad. Er ei fod yn ceisio bod yn glyfar, credaf iddo fethu yn druenus wrth iddo ymdrechu mor slafaidd i ddwyn y rhegfeydd i mewn i rediad y stori.*

*Gallaf weld eich dadl dros gynnwys y math yma o stwff yng ngholofnau'r* **Dinesydd** *— rhag i'r papur droi yn fisolyn gor-barchus a sych. Gwn hefyd am yr anhawster i ddod o hyd i gyfrannwyr cyson a all sgrifennu'n dda a diddorol. Ar yr un pryd, credaf bod "Y Dyn Dwad" wedi mynd dros ben llestri y tro hwn. Dyma'r math o "lenyddiaeth" y gellid ei ddisgwyl yn* **Lol** *neu gylchgrawn Rag. I'r rhai na sydd yn dymuno darllen y fath sothach yn y cylchgronau hyn, mae rhyddid iddynt wrthod eu prynu ond mae'r sefyllfa'n bur wahanol gyda'r* **Dinesydd** *gan ei fod yn cael ei ddosbarthu'n rhad ac am ddim i bawb.*

*Rydw i a channoedd eraill yn mwynhau'r* **Dinesydd** *o fis i fis ac yn teimlo'n wir ddiolchgar i chi am eich ymroddiad a'ch dyfal-barhad gyda'r gwaith anodd o'i baratoi. Dyna'r rheswm y teimlwn mor ofidus nos Sul wedi darllen y dyddiadur yna — yn wir, rhagwelwn y gallai hyd yn oed beryglu dyfodol* **Y Dinesydd**. *Charwn i ddim gweld diwedd ar* **Y Dinesydd**.

*Yn ddiffuant,*

*BETHAN ROBERTS,*
*Radur, Caerdydd.*

*ANNWYL OLYGYDD,*

*Fe ddarllenais i erthyglau Goronwy Jones, a chael hwyl fawr o'u darllen nhw. Maen nhw'n ddelwedd go iawn o fywyd ymysg pobl ifanc Caerdydd, a siarad yn fras.*

*Gwnaed i mi chwerthin wrth ddarllen cyhuddiad diaconiaid Ebeneser, ei fod e'n "dwyn gwarth ar ei gymdeithion". Pa mor gul all pobl fod!*

*Efallai ei bod hi'n frawychus i'r bobl hunan-gyfiawn yma ddarganfod fod 'na rai pobl sy'n gallu mwynhau bywyd y tu fas i'r eglwysi a'r cwrdd gweddi. Yn anffodus, mae'n debyg fod llawer o broblem diota a meddwdod heddiw yn adwaith uniongyrchol cymdeithas yn erbyn agweddion awdurdodol a llethol y ceisiai'r eglwysi a'r capeli eu gorfodi arni cynt.*

*Do, fe chwaraeodd crefydd ei rhan ym mharhad yr iaith Gymraeg, ond yn union fel yr achubwyd yr iaith gan grefydd yn y gorffennol, yn yr un modd fe'i llofruddir ac fe'i tagir hi gan grefydd heddiw os na chaniata'r eglwysi a'r capeli iddi hi newid a datblygu, a lledaenu tu draw i furiau'r festri.*

*Yn olaf, mae'r* **Dinesydd** *yn* **bapur** *i bobl Caerdydd, a dylai papur gynnwys newyddion a phethau cyfoes, nid cwynion pobl hynafol, ddigofus.*

*Yn gywir,*

*PETER DAVIES,*
*Coleg Addysg Cyncoed,*
*Caerdydd.*

## ...... a chais am ei gymorth!

*BARCHUS OLYGYDD,*

*Tybed a gawn ni fanteisio ar eich colofnau i ofyn am gymorth i gyhoeddi llyfr Cymraeg o fath newydd a gwahanol, sef "Tafarnau Cymru". Ein cais yw am gymorth ymarferol i gasglu enwau tafarnau (a gwestai trwyddedig a chlybiau) o gymeriad ac awyrgylch "Gymreig".*

*Er nad yw Caerdydd ei hunan, efallai, yn cynnwys llawer o lefydd sy'n haeddu eu cynnwys, eto mawr hyderwn fod gan darllenwyr "Y Dinesydd" stôr o wybodaeth a fyddai'n ddefnyddiol i'r cyhoeddiad hwn.*

*Y mae'r ffurflenni perthnasol i'w cael o'r cyfeiriad isod, yn rhestru'r manylion y dymunwn eu cofnodi. Apeliwn atoch i anfon amdanynt oherwydd mae'n sicr y cytuna pob Cymro ei bod yn hen bryd dwyn pwysau i Gymreigio tipyn ar dai tafarnau ein gwlad.*

*Yr eiddoch &c.,*

*E. IOAN*
*R. GRUFFUDD*
*(ar ran Y Pwyllgor Dewis)*

*Y Lolfa*
*TALYBONT*

# "Ffydd ...nid ofn"

*ANNWYL OLYGYDD,*

*"Rhwygo'r Genedl a Lladd yr Iaith"*

*Dyna bennawd cyffrous llythyr yr Athro hyglod Jac L. Williams yn rhifyn y mis diwethaf o'r Dinesydd. Y mae Jac L. Williams wedi ymgymryd ag ymgyrch dyngedfennol i rwystro sefydlu dwy donfedd i'r cyfryngau torfol yng Nghymru. Nid oes neb a adwaen yr Athro yn amau ei ddidwylledd. Ond nid yw hynny yn sicrwydd o gywirdeb ei farn. Canys y mae llawer o dwyll-resymu yn ei ddadl ac ni ellir ar y cynseillau a esyd ef dynnu'r casgliad neu'r casgliadau y mynn ef i ni eu derbyn.*

*Craidd ei ddadl yw, os bydd y rhaglenni Cymraeg a Saesneg ar yr un donfedd y bydd y Gymraeg yn mynd i bob cartref yng Nghymru yr un ffunud a'r Saesneg a bod eu gwahanu, un ar Radio Cymru ar llall ar Radio Wales yn mynd i gau'r rhaglenni Cymraeg yn gyfangwbl o'r rhan fwyaf o gartrefi Cymru. Nid yw'r ffaith fod y rhaglenni Cymraeg fel y Saesneg yn mynd ar hyn o bryd i gartrefi Cymru yn gwneud dim gwahaniaeth, am mai troi i chwilio am raglen Saesneg ar ryw donfedd arall a wna'r Cymry di-Gymraeg a'r Saeson cyn gynted âg y daw rhaglen Gymraeg ymlaen. Os felly, nid yw'r Gymraeg yn mynd i relyw mawr cartrefi Cymru.*

*Y ffaith yw fod y genedl wedi ei rhwygo yn ieithyddol drwy oruchwyliaeth drahaus y Saeson ar hyd y canrifoedd, goruchwyliaeth na fynnai gydnabod ein hiaith fel ein hiaith genedlaethol ni yng Nghymru.*

*Ai credu y mae yr Athro brwd mai dim ond yn Saesneg y gellir cynnal y gwasanaethau hyn, a gwthio ychydig Gymraeg yma a thraw wrth hwylustod y Saesneg fel rhyw friwsion i Lasarus wrth y porth? Os felly dyma ni'n ôl yn glwt yn nhraddodiad Brad y Llyfrau Gleision, ac, ysywaeth, dan arweiniad y Cymro disglair hwn. Os ofni y mae na ellir tonfedd ar wahan i'r Gymraeg naill ai oherwydd prinder y gwrandawyr Cymraeg neu ynteu oherwydd prinder ein hadnoddau i gynnal y gwasanaeth Cymraeg, yr unig ateb i hynny yw "rhoi cynnig arni". Peth cwbl anwlatgar yw gwadu ffydd yn y genedl a'i hadnoddau diwylliannol ac adloniadol oherwydd ei bod yn argyfwng ar yr iaith ar hyn o bryd.*

*Cytunaf fod yr hyn a gynigir yn gwbl anfoddhaol. Ar wahan i hunan-lywodraeth a sefydlu Awdurdod Radio a Theledu ar wahan i Gymru fel y byddai dan ein llywodraeth ein hunain, pes caem, nid oes unrhyw obaith. Er hynny, byddai gofyn i ni ddarpar ar gyfer y di-Gymraeg a'r Saeson yng Nghymru tra pery'r Saesneg yn iaith y mwyafrif neu'r lleiafrif o bobl Cymru. Bu'r un ofn yn meddiannu llu o bobl ynglŷn â'r Ysgolion Cymraeg, cynradd ac uwchradd. Os oes angen prawf drwy gyfeiriadaeth y mae llwyddiant ysgubol yr ysgolion hynny o'n blaen ni. Yn lle "lladd yr iaith" y maent wedi rhoi bywyd newydd iddi. Ffydd sydd ei eisiau nid ofn.*

*Yn wlatgar,*
*ITHEL DAVIES,*
*Penarth.*

## DALIER SYLW

**Yr ydym yn fodlon chyoeddi llythyron ar y dudalen hon o dan ffugenwau, ond *rhaid* i'r Golygydd fod wedi derbyn enw a chyfeiriad iawn yr Ysgrifennwr cyn gellir gwneud hynny.**


CYRHAEDDWCH

78,500

O DDARLLENWYR

**Ffôniwch i gael ein**

**telerau hysbysebu**

**CAERDYDD 396262**


**D.S. NI FYDD rhifyn o'r *Dinesydd* yn ymddangos ym mis Ionawr: bydd rhifyn Ionawr/Chwefror yn ymddangos ar Ionawr 28. Deunydd ar gyfer y rhifyn hwnnw erbyn IONAWR 17 fan bella, os gwelwch yn dda. Danfoner at: Siân Edwards, Golygydd *Y Dinesydd*, 66 Heol Maendy, Cathays, Caerdydd.**

## CALENDR RHAGFYR — CHWEFROR

### RHAGFYR

20 Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys NOSON GAROLAU Eglwys San Pedr, Dinas Powys.
Cymdeithas Eglwys Heol y Crwys CANU CAROLAU dan arweiniad T. Ellis James 7.30p.m.

24 Eglwys Annibynnol Ebeneser GWASANAETH GWYLNOS CYDENWADOL Ebeneser 11.15p.m.

### IONAWR

4 Merched y Wawr, Caerdydd a'r Cylch YMWELD Â STIWDIO TELEDU HARLECH

6 Cylch Meithrin Llandaf DATHLU'R HEN GALAN Cawl, gwin ac adloniant o dan ofal Roy Saer. Neuadd Goffa Llandaf.

7 Cymdeithas y Cymrodorion BAGAD GOFALON BUGAIL Parch Emlyn G. Jenkins Festri Ebeneser

11-15 Cwmni Theatr Cymru MADOG Pantomeim y flwyddyn! Theatr Sherman 7.00p.m. (Mercher a Iau 2.00p.m. hefyd)

11 Adran Efrydiau Allanol TORRI MAWN T.M. Owen, Yr Amgueddfa Werin, Sain Ffagan 10a.m.-12.00

12 Y Gymdeithas Lenyddol WALDO W.R. Evans ORIEL, 53 Heol Siarl 7.30p.m.

12 Cymdeithas Eglwys Heol y Crwys CYFARFOD AGORIADOL dan ofal Gwilym Humphreys 7.30p.m.

17 Clwb Tŷ'r Cymry NOSON DRAFOD HENEBION 7.30p.m.

25 Adran Efrydiau Allanol Y TAFODIEITHOEDD YN NEWID Dr. Gwenllian Awbery. Yr Amgueddfa Werin, Sain Ffagan. 10a.m.-12.00

26 Cymdeithas Eglwys Heol y Crwys DISGO dan ofal John Albert Evans

29 Cylch Meithrin Radur NOSON Y SANTES DWYNWEN Canolfan Adloniant Clwb Meddygol Ysbyty'r Waun 8.00p.m.

31 Clwb Tŷ'r Cymry NOSON GOFFI CROESAWU'R DYSGWYR dan ofal Bill Raybould 7.30p.m.

### CHWEFROR

1 Merched y Wawr, Caerdydd a'r Cylch PLANHIGION GALL PAWB EU TYFU Richard Bowering. Canolfan yr Urdd 7.30p.m.

4 Cymdeithas y Cymrodorion NOSON GERDDOROL A CHYMDEITHASOL o dan ofal Arwel Hughes. Festri'r Tabernacl.

# Wel, dyma ni'n dwad

Annwyl Gyd-ddinesydd,

Hysbyseb byr yw hwn i nodi'r ffaith y bydd y Fari Lwyd eto eleni yn ymadael â'i stabal i ddilyn ei hynt ar hyd lwybrau Caerdydd a Bro Morgannwg.

Mawr fu'r croeso a gafodd yn y blynyddoedd diweddar, a chafwyd ambell i ben tost a llwnc sych gan ei gosgordd ond, ta waeth bydd hi eto'n curo ar eich drysau a chroesi eich aelwydydd os nad ydych yn barod i'w derbyn ac ymateb i'w chaneuon yn y dull traddodiadol. Yn wir, nid yw'r Fari wedi colli'r ymdiddan ar aelwyd neb. Mae ei thafod mor ffraeth eleni ag erioed a'i llwnc cyn ddyfned. Felly, hwyliwch ati chi feirdd talcen-slip Caerdydd i'w dal allan o'ch haelwydydd neu, pwy a ŵyr efallai y daw Pwnsh a Shwan i'ch tŷ chi i godi twrw a galanast.

Os ydych am ddarllen mwy am y Fari tynnwch allan gyfrol Mr Trefor M. Owen, Sain Ffagan, cewch yr hanes i gyd fan yna.

Gyda llaw, mi wn fod rhai digon od i wahodd yr hen ledi i'w tai i godi hwyl ag ati, wel mae hi'n barod i ddod eto os y caiff gwahoddiad. Anfonnwch air neu ffoniwch yr Osler,

Rhodri Jones, 169 Heol Caerdydd. Nantdwyrain, Dinas Powys CF6 4JW. Ffôn 513282.

Mae'r Fari eleni
Yn prancio'n reit handi
I neidio dros glwydi
Y ddinas.

Hi fydd yr ore
I ganu tribanne,
Oes ateb, nawr dere
'R dinesydd.

Eich ateb yn brydlon
Yr hoffwn gyfeillion
A chroeso tra rhadlon
I'r Fari.

# TUDALEN Y DYSGWYR

*Diolch i Siân am edrych ar ôl y tudalen hwn yn ystod mis Tachwedd, pan oeddwn i'n symud tŷ, neu newid tŷ y dylwn i ddweud, efallai. Tipyn o dasg, beth bynnag.*

### LLANGRANNOG

*Ar ddiwedd wythnos gynta mis Tachwedd, aeth tua 50 o oedolion o Forgannwg ar gwrs penwythnos i Llangrannog a chael llawer o hwyl. Roedd hi'n braf yno, a mor dawel. Un peth pwysig ar gyfer dysgu siarad Cymraeg yw sefyllfa, ac y mae digon o sefyllfaoedd yn Llangrannog!*

### DŴR OER

*Fe welais i un sefyllfa newydd ar y penwythnos hwn. Dau ddyn yn neidio i mewn i'r pwll nofio heb wybod fod y dŵr yn oer, ac yn gweiddi allan, "Ych a fi, mae'r (y gair Saesneg am "waedlyd") dŵr yn oer!" Dyna dda oedd gweld pobl yn gallu defnyddio'r iaith hyd yn oed ar ôl cael sioc fel yma.*

# NEWYDDION

### ADDYSGU'R CYFARWYDDWR ADDYSG

*Mae'r cyrsiau penwythnos yn boblogaidd iawn o hyn, ac fe gafodd Canolfan Oedolion Rhisga, o dan arweiniad Ms Cath Huws, amser hapus iawn yn Llangrannog yng nghanol Tachwedd. Cyn i hwn ymddangos yn y wasg fe fydd tua 90 o bobl wedi treulio penwythnos yn y Dyffryn, a bydd criw arall o Gaerdydd wedi bod yn Llangrannog ar gwrs Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Ymhlith y bobl yn Y Dyffryn, fe fydd Cyfarwyddwr Addysg De Morgannwg a'i wraig, sy'n gwneud eu gorau glas i ddysgu.*

### CWRS RHAD!

*Fe fydd yna gwrs wythnos ar yr haf nesa yn y Dyffryn, yn ystod ail wythnos mis Awst. Cwrs newydd fydd hwn, ac y mae'n mynd i fod yn gwrs rhad dros ben. Fe fydd y manylion allan cyn hir, felly gwyliwch y tudalen yma.*

### YSGRIFENNWCH

*Mae llawer o ddysgwyr wedi gorffen tymor arall o ddysgu Cymraeg ac wedi mwynhau ac enjoyo'r gwaith dwi'n siwr. Beth am ysgrifennu cerdd ar y testun, "Y Dosbarth Nos"? Bydd gwobr i'r gerdd orau. Ewch ati i ysgrifennu dros yr Wyl, a danfonwch hi ata'i: John Albert Evans, 6 Ridgeway, Llysfaen, Caerdydd.*

### BREUDDWYDIWCH YN GYMRAEG!

*Cofiwch beidio ag anghofio'ch Cymraeg yng nghanol y plwm pwdin a'r brandi, ac wrth gysgu'n dawel ar ôl y cinio Nadolig, ceisiwch freuddwydio'n Gymraeg! Nadolig Llawen a blwyddyn newydd Gymraeg i bob Dysgwr. Cofiwch dri pheth dros wyliau'r Nadolig:*
*1. Peidiwch ag anfon cerdyn Nadolig Saesneg i neb.*
*2. Os byddwch yn anfon anrhegion - cofiwch am docynnau llyfrau Cymraeg.*
*3. Trowch yn awr ac yn y man at lyfr Cymraeg er mwyn cadw mewn cysylltiad â'r iaith pan nad oes dosbarth - mae gwrando ar raglenni Cymraeg ar y radio a gwylio rhaglenni Cymraeg ar y teledu yn syniad da hefyd.*

*O.N. Cwrs penwythnos nesa yn Llangrannog - Mawrth 11 -13.*

*JOHN ALBERT*

GEIRFA

| | |
|---|---|
| *sefyllfa* (*pl. sefyllfaoedd*) | - situation |
| *canolfan* | - a centre |
| *oedolion* | - adults |
| *addysgu* | - to educate |
| *Cyfarwyddwr Addysg* | - Director of Education |
| *cerdd* | - poem |
| *gwobr* | - prize |
| *breuddwydio* | - to dream |
| *tocyn llyfrau* | - book token |
| *cadw mewn cysylltiad â* | - to keep in touch with |

## Oddi wrth ein darllenwyr iau:

ANNWYL "Y DINESYDD",

Yr ydwyf fi a Sion yn ysgrifennu ar ran y merched a bechgyn sydd yn mynd i Adran yr Urdd yn ysgol Bryntaf. Yr ydym yn cwrdd bob nos Fawrth a Cen Williams yw'r Swyddog Dewr sydd yn edrych ar ein hôl. Yr ydym yn cael llawer o wahanol itemau diddorol, a dyma rhai yr ydym wedi cael y tymor yma.

Un nos Fawrth, fe wnaethom masgiau yn barod erbyn Noson Calan Gaeaf. Daeth pawb â bocsis a phapur ac offerynnau ac mi ddaeth Cen â phaent, glud a siswrn. Roedd yn noson ddiddorol gyda paent a glud dros llawr y neuadd ym mhobman.

Pythefnos wedyn, ar noson Calan Gaeaf fe ddaeth pawb â masgiau i'r Adran a ddaeth Dewi Pws i edrych arnynt a'u beirniadu. Fe ddaeth â'i gutar a'i organ geg a chawsom rhyw awr o hwyl a sbri yn canu a dawnsio cyn diwedd y noson gyda gêmau. Erbyn hyn roedd pawb wedi ennill gwobr, ac ni aeth neb adref heb ryw anreg neu gilydd. Diolch i Siop Gwerin am eu cefnogaeth gyda'r anrhegion.

Ar nos Fawrth arall, fe gawsom 'dân gwyllt' allan yn y iard gyda Cen yn eu cynnu a ni yn gweiddi.

Edrych ar sleidiau i wneud â Chymru a wnaethom ryw nosweth arall, gyda Tristan Jones yn cyfrannu sleidiau diddorol am Injan Stêm ac adeiladu St Fagans. Caed cwis ar y lluniau roeddem wedi weld cyn diwedd y nos.

Cafon Noson llyfu stampiau gwyrdd er mwyn Eisteddfod yr Urdd yn Y Barri. Pawb â'i stampiau gwyrdd ar eu tafod, dim blas neis iawn. Diolch i Cen am ddod â diod gydag ef i olchi lawr. Daeth Gareth Stiff â digon o stampiau gwyrdd i ddeg llyfr.

Yr ydym yn cael nosweth dda bob nos Fawrth.

Yr eiddoch yn gywir,

GUTO a SIÔN DAVIES,
Adran yr Urdd, Ysgol Gymraeg Bryntaf,
Y Rhodfa, Caerdydd.

Ysgol Feithrin Llandaf
NOS YSTWYLL
Ionawr 6ed 1977
7.30p.m., Neuadd Goffa Llandaf
Cyflwynwyr: Hywel Gwynfryn
a Meredydd Evans
Tocynnau — £1, yn cynnwys
adloniant (yng ngofal Roy Saer),
cawl a gwin,
ar gael gan:
*Stella Mair Thomas*
*Caerdydd 565764*

YN EISIAU: Cymraes i rannu tŷ, yn ardal Penylan, gyda phedair athrawes ifanc ystafell wely i bob person a phris rhesymol! Ffonier Caerdydd 388920, neu galwer yn 57 Heol Amesbury (ger Colchester Avenue), Penylan, Caerdydd.

GORFFWYSWCH - YMLACIWCH



CERBYDAU WENALLT

*(Perchennog J.M. CROOKES)*

Cerbydau moethus gyda 20-51
o seddau i'w hurio

SWYDDFA DOCYNNAU
Ffôn Caerdydd 31174

WHITTLE ROAD, LECKWITH ESTATE,
CAERDYDD.

(Nosweithiau Ffôn 63250)

Galwch o'n lyncu mul os mynnwch chi, ond ar waetha 'nannedd rwy'n cyfrannu y tro hwn. Chwarae teg, ynte, rwy'n sgwennu'n gyson ers rhai blynyddoedd i'r papur, heb fawr o sylw, cofiwch, a rwan dyma ryw gyw o sgwennwr, rhyw ddiawl bach digywilydd, yn dwad i Gaerdydd a dwyn yr holl sylw — cael 'i enw yn *Y Cymro* a bob beth. Alla'i ddiodda hyn? Dim ffiars o beryg. Fe ddwedes wrth fy nêmsêc olygydd hefyd, "Dim mwy o hyn", meddwn i. "Dwi am sgwennu i'r Faner — am bres." "Paid â phoeni," medda hitha, " 'tydi e ond yn sgrifennu am 'mod i'n rhoi copi o'r *Dinesydd* am ddim iddo." "Ond... ond..." "Ie, rwy'n gwybod," meddai'r golygydd. "Mae pawb yn 'i gael am ddim, a'r funud y bydd Mr Jones yn sylweddoli hyn, mae o'n siwr o bwdu, codi 'i sach gysgu, pot peint, a'i bensel, a diflannu i niwl y nos." Gorau po gynta, ddweda i, dwi wedi cael llond bol.

* * *

Dwi wedi cael llond bol hefo'r "County of South Glamorgan" hefyd. 'Da chi'n cofio fy ychydig eiriau reit neis am ymweliad Cerddorfa Hamburg a'r brifddinas, yn y rhifyn diwethaf ond un, a'r wybodaeth am y cyngerdd cyhoeddus yn yr Eglwys Gadeiriol? Wel, fe dderbyniais un o'r posteri uniaith Saesneg a hysbysebodd yr "International Concert — presented by Hamburg State Youth Orchestra, Cardiff Aelwyd Choir". Roedd "tickets available from Urdd Centre... bla... bla... bla."

Ni feiddiaf awgrymu fod swyddogion y côr yn gwybod am hyn ymlaen llaw, ond mae'r wers yn amlwg. Mae'n amlwg hefyd mai amhosibl fuasai i'r "County of South Glamorgan" drefnu'r fath halibalw gerddorol heb gefnogaeth aelodau'r Urdd, ac eto, dyma'r trefnwyr yn methu'n lan ag amgyffred gwerth ac arwyddocad yr iaith i'r mudiad. Tybed ai dyna'r rheswm pam na welwyd yr un o'r posteri ar furiau Canolfan yr Urdd?

* * *

Heb gael hanner llond ei fol mae'r truan bach a ymddangosai ar bosteri eraill sy'n cael lle amlwg yn y Ganolfan. Dyma'r geiriau sy ar y poster OXFAM:

"Be wnei di, malu awyr neu weithredu? Gwna rywbeth â phroblem fwya'r byd." Beth amdani? Gyrrwch eich cyfraniad, gan gyfeirio at y poster uniaith Gymraeg, i: OXFAM, 33 Whitchurch Road, Caerdydd.

* * *

Dwi wedi cael llond bol hefo ambell i bwyllgor Seisnig Steddfod Genedlaethol Caerdydd hefyd. Edrychwch ar yr enghreifftiau gwarthus hyn.

NATI NAL EISTEDDFOD CARDIFF 1978

Report on the inaugural meeting of the proposed panel for PHOTOGRAPHY AND FILM; a sub-committee of the Arts & Crafts Committee (see Minute 12.1 dated 5.7.76)
Date: 17.9.76.
Present: Juli ... ner,
T ... Malcolm; Peter Thom...

NATIONAL EISTEDDFOD OF WALES, CARDIFF 1978
Arts and craft sub. Committee — Children's Section
Tel. No. Brigend 5259

54 Parcau Avenue,
Bridgend
Mid. Glam.
CF31 4 ...
20th October, 1976

Dear

You are invited to attend a meeting of the above sub-committee at th... Teachers Centre, Cardiff on Monday 1st November at 7.00 pm.

Yours faithfull...

MINUTES OF

## colofn sbectol SIAN *

Tra'n trafod dogfen arall, sef "Gwaith y Pwyllgor" gan y trefnydd parhaol, J. Idris Evans, ysywaeth — "Cytunodd y pwyllgor Celf a Chrefft i ddosbarthu cyfieithiadau i'r Saesneg i'r aelodau na fedrant Gymraeg."

* * *


Dwi wedi cael llond bol yn y 'Cedars' fwy nag unwaith — ond rwy'n amau os af fi yno eto. Clywais Torileski, cynghorydd-berchennog y Cedars, yn datgan yn ei Saesneg gorau, "I have been elected by the rate-payers of the city to look after their interests". Ond pan dderbyniodd alwad ffôn gan "rate-payer" o Gymro yn gofyn am ei gefnogaeth i'r ysgol Gymraeg arfaethedig yn ei etholaeth, doedd gan y gŵr o wlad Pwyl ddim diddordeb. Anghyson braidd, ynte, ond pwy wedyn ond gŵr anghyson fuasa'n clochdar yn erbyn erchylldra ffilm yr *Omen*, ac yna mynd i weld Dinas Caerdydd yn chwarae bob wythnos!

* * *

Dwi wedi cael llond bol ar bobol y Bîb sy'n fy atgoffa bob bore am y dewis sydd gennyf — *Bore Da* ar VHF neu *Good Morning Wales*. Mae'n amlwg, yn ôl y papurau newydd, fod gennyf ddewis arall o Ionawr ymlaen — Hywel Gwynfryn neu Vincent Kane. Fel y dwedodd y dyn Tic Tac ar y TV, "No contest", ynte? Fe gymera'i Hywel Gwynfryn, plîs, ond i chi ddweud pryd 'dach chi am 'i gael o 'nol! A bod o ddifri, hogia, buaswn wrth fy modd yn gwrando ar "H.G. Wales" o Ionawr ymlaen pe tae gen i radio VHF. Os bydda'i'n prynu un — ac y mae'n amlwg y bydd rhaid i mi — carwn wybod beth alla'i wneud a'r hen set. Unrhyw syniadau?

* * *

Dyma i chi lond bol go iawn.




Diolch i gwmni Kellogs am ddangos ei bod hi'n bosib defnyddio'r hen iaith o 'yd!

# Noson i'r Santes Dwynwen

yng nghwmni Cylch Meithrin Radur a Phentrepoeth

Yn Neuadd Adloniant, Ysbyty Y Waun, Caerdydd
*(Maes parcio Ty Maeth)*
am 8 o'r gloch, Nos Sadwrn, Ionawr 29ain
BWYD, BAR a DIDDANWCH
Tocynnau pris £1.50 oddiwrth

*Mrs C. Livsey 842074, Mrs V. Williams 842076, Mrs M. King 842078*

# Newyddion Da o Lawenydd Mawr

Yn ystod Tymor yr Adfent, mae Radio Cymru yn darlledu pedair oedfa o Gaerdydd ar y thema "Newyddion Da o Lawenydd Mawr". Darlledwyd y gwasanaeth cyntaf o Eglwys Dewi Dant ar Dachwedd 28; "Newyddion Da i'r Gweithwyr" oedd y testun, a dilynwyd hynny gan "Newyddion Da i'r Ymwelwyr" yn oedfa Eglwys Minnie St, a ddarlledwyd y Sul canlynol. Gellir clywed y gwasanaeth o Eglwys Y Tabernacl, "Newyddion Da i'r Teulu" am 11.45 fore Sul, Rhagfyr 12fed, a bydd y gyfres yn gorffen gyda gwasanaeth Eglwyd Heol y Crwys, "Newyddion Da i'r Holl Fyd" yr un amser fore Sul, Rhagfyr 19eg.

## MASWR NEWYDD

Pleser oedd clywed fod Bill a Vivian Raybould wedi cael maswr newydd i ymuno â'r tim! Ganed Thomas William ddiwedd mis Tachwedd, felly dyna un anrheg Nadolig a ddaeth cyn pryd. Ond, yn ôl a ddeallwn, *Voice Box* yn hytrach na *Christmas Box* yw Meistr Thomas William ar hyn o bryd! Llongyfarchiadau i'w rieni hapus — a gobeithio y daw cwsg yn ôl i'r amrant cyn bo hir!

# Y MUDIAD MEITHRIN

**Rwy'n siwr mai dyma gyfnod prysura pob Cylch Meithrin - edrychaf ymlaen at ymweld â'r cylchoedd y mis yma a chael blas ar hwyl yr Wyl ym mhob man. Mae'n debyg y byddaf, cyn diwedd y tymor, wedi gweld llu o gardiau 'Dolig, Santas o bob siap, ac amryw i Fair a Joseff - heb son am fugeiliaid, Doethion ac angylion aflonydd.**

Efallai y cofiwch i mi ddweud y mis diwetha fy mod yn pryderu ymhle a sut i ddatblygu yn y Sir - ac mai anodd yw dod o hyd i gnewyllyn brwd yn yr ardaloedd heb Gylch Meithrin Cymraeg. Bychan o ran rhif yw'r rhan fwayaf o Gylchoedd presennol De Morgannwg. Rwyf wedi dod i gredu y dylwn ar hyn o bryd roi blaenoriaeth i hybu'r cylchoedd sydd mewn bod eisoes. Carwn weld Cylch Mam a'i Phlentyn ynghlwn â phob Cylch Meithrin. Gall hyn fod yn fodd o fwydo'r Cylchoedd, i groesawu mamau sydd rhwng dau feddwl ynglŷn ag addysg ddwyieithog a rhoi cyfle iddynt gyfarfod â mamau eraill a hwyrach eu perswadio i anfon eu plant i'r Cylch Meithrin.

Mae Cylch Mam a'i Phlentyn hefyd yn fodd i famau a phlant bach gymdeithasu. Wrth edrych yn ôl y cyfnod pan oedd y plant yn fân y teimlais i fwya caeth ac unig, a byddwn yn dyheu am sgwrs a chwmpeini. Gall Cylch Mam a'i Phlentyn lanw'r bwlch yma. Byddai hefyd yn fodd i newydd-ddyfodiaid i Gaerdydd wneud ffrindiau. Ar ben hyn, mae 'na gyfle i ddefnyddio'r prynhawn i famau di-Gymraeg gael gwers Gymraeg. Gall cnewyllyn o famau Cymraeg warchod y plant tra bo'r dysgwyr yn neilltuo am ryw awr. Rwy'n hyderus bod llu o bosibiliadau mewn menter o'r fath.

Mae'n dda gen i ddweud fod cylchoedd o'r fath eisoes wedi agor yn y Crwys, Llandaf, Rhiwbeina a Phentwyn ac ar ôl Nadolig, bydd un yn agor yn y Bontfaen.

Os oes rhai o blith darllenwyr *Y Dinesydd* yn famau ifanc - peidiwch ag aros nes bod y plant yn dair oed cyn cysylltu â'r Mudiad. Ble bynnag y bo galw, fe sefydlwn Gylch Mam a'i Phlentyn - er mwyn i'r plant fod yn sŵn awyrgylch Gymraeg o'r crud.

Cyn i'r rhifyn nesa o'r *Dinesydd* ddod allan, byddwn wedi cael dyddiaduron newydd — felly beth am glustnodi Ionawr 6ed yn awr? Yn ôl eu harfer bellach, bydd Cylch Llandaf yn cynnal Noson Hen Galan yn Neuadd Goffa Llandaf. Roy Saer fydd yn trefnu'r adloniant ac fe gewch fwynhau cawl a gwin yno hefyd.

Wrth son am Gylch Llandaf - carwn gyfeirio at garedigrwydd Capel Salem, Canton yn rhoi cartre dros dro i'r Cylch. Oherwydd aflwydd pydredd sych yng Nghanolfan yr Urdd, bu raid i Gylch Meithrin Llandaf newid aelwyd. Diolwch i swyddogion Salem am ddod i'r adwy. Erbyn hyn mae cylch Llandaf yn ôl yng Nghanolfan yr Urdd. Carwn hefyd fynegi diolch Cylch Pentwyn i Glwb Dysgwyr Gwilym Roberts am rodd hael i'w coffrau. Pleser hefyd yw diolch i gangen Caerdydd o Ferched y Wawr am roi £5 i bob un o Gylchoedd Caerdydd. Can diolch i bawb am bob cefnogaeth.

Wrth gloi colofn ola '76, d'allai lai nag edrych yn ôl - ac ymlaen. Dyma fi wedi bod yn fy swydd am flwyddyn gron, a charwn fod wedi cyflawni llawer mwy. Ar un olwg nid wyf yn teimlo mor frwdrydig ag yr oeddwn flwyddyn yn ôl - nid am fy mod yn credu'n llai yng ngwaith y Mudiad, ond am fy mod yn gymaint mwy ymwybodol o anawsterau. Plant, athrawon, adeiladau addas, cyllid - prinder popeth! Ond dyna ni, gan ddyfynnu - nid am y tro cyntaf - "Gwell cynnau cannwyll fechan na melltithio'r tywyllwch."

'Dolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i bawb.

SHÂN EMLYN

# TRISTWCH

**Syndod i bawb o'i gydnabod oedd darllen yn y wasg yn ddiweddar am farwolaeth Graham Prosser, Llanilltud Fawr, mewn damwain car y tu allan i Rio de Janeiro, Brazil. Cynrychiolai cwmni cyhoeddi llyfrau yno. Bu yn gyfrifol am gasglu arian ymhlith Cymry De Amerig at Gylch Meithrin Llanilltud Fawr. Dysgodd Gymraeg ac ymddiddorai'n fawr iawn yn y "pethe". Chwith ydy meddwl na welwn y Cymro twymgalon yma byth mwy.**

# BZH — FFILM O LYDAW

**Ymhen ychydig o wythnosau fe ddaw ffilm newydd allan gan Fulub Cassard (Tri-i'ri 1972, Terra Corsa 1974). Y ffilm hon yn sicr yw'r ffilm hir gyntaf am frwydrau pobl Llydaw heddiw. Y mae'n para tua dwy awr ac y mae 40% o'r sgyrsiau ynddo yn Llydaweg. Y mae hyn i gyd yn addo y bydd y ffilm hwn yn ddigwyddiad pwysig.**

Cafodd y rhan fwyaf o "BZH" (dewiswyd y teitl hwn yn bwrpasol) ei ffilmio yn ystod Hydref 1975. Y mae'n ffilm hir, a chymerodd cannoedd ar gannoedd o Lydawyr, miloedd hyd yn oed, ran ynddi yn y ffilm hwn, yn ddiarwybod gan amlaf. Er engraifft gwelir yr holl bobl a ymgynullodd yn Gwengamp ar 26 o Hydref 1975 i amddiffyn y Llydaweg a diwylliant Llydaw. Bydd y ffilm hwn yn gofnod gwerthfawr. Nid oes gennym unrhyw ffilm yn dangos y mudiad cyn y rhyfel na brwydrau mawr y gweithwyr rhwng 1950-51 (gweithwyr Naoned a Sant-Nazer) a 1960-61 (gwrthryfeloedd y gwerinwyr). Gwnaed ffilmiau gan Torr-e-Benn am frwydrau a gymerodd lle ychydig o flynyddoedd yn ôl ond gwnaed hwy yn super-8 a gwael dros ben oedd y lluniau y rhan amlaf. Ond yn "BZH" y mae gennym ffilm fel y dylai fod wedi ei gwneud, mewn 16mm, gan fachgen sydd yn gwybod ei waith.

Y mae "BZH" yn dangos pa mor amrywiol yw'r frwydr yn Llydaw heddiw, brwydr yn erbyn y fyddin Ffrengig sydd o hyd yn ceisio helaethu ei thiriogaeth yn Llydaw, brwydr dros Lydaweg, a llawer brwydr arall. Y mae'n dangos yn glir datblygiad y mudiad ers ychydig o flynyddoedd. Nid yw'r frwydr dros Lydaw yn fater i'r lleiafrif bellach ond yn fater i lawer o bobl ym mhedwar ban y wlad. Yn y ffilm y gwelir ddarnau o'r ddrama "Nevez-amzer ar Bonedou Ruz" (Gwanwyn y Boneti Cochion) gan Paol Keineg, a darnau o "Ledenez da werzhan" (Gorynys ar werth), drama fywiog a ysgrifennwyd gan weithwyr ifanc o Fro San-Nazer.

# Y GRONFA APEL


**Mae'r Gronfa Apêl wedi bod ar agor nawr am ryw chwech wythnos ac ar hyn o bryd, mae'r Trysorydd wedi derbyn tua £700. Mae hwn yn ymddangos yn swm eitha da ar yr olwg gynta, o ystyried fod cymaint o alw ar bocedi pobl y dyddiau hyn. O gofio, fodd bynnag, fod £400 o'r swm yma wedi dod oddi wrth dri theulu hael, braidd yn siomedig yw'r ymateb.**

Mae llawer o bobl wedi gofyn i ni beidio ag argraffu rhestr o enwau'r cyfrannwyr felly parchwn eu dymuniad. Ga'i fodd bynnag ddiolch o galon i'r caredigion yma sydd unwaith eto wedi rhoi mor hael, ie, gan gynnwys y bachgen bach o Lanrhymni a anfonodd ddeg ceiniog atom.

Mae'r gwaith o drin y pydredd sych bellach wedi gorffen, ond mae llawer i'w wneud eto cyn cael y Ganolfan yn ôl i edrych rywbeth yn debyg i'r hyn oedd hi flwyddyn yn ôl.

Mae hi'n adeg anfon anrhegion at ffrindiau ar hyn o bryd. Tybed a fyddech chi cystal â chofio am y Ganolfan ac anfon anrheg fach iddi hithau? Cyfeiriad y Trysorydd: Elwyn Tudno Jones, Hafod y Ddinas, Heol Isaf, Radur. Diolch.

JOHN ALBERT EVANS,
Cadeirydd y Ganolfan.



CAN OLFAN

# GWELLHAD

**Mae'n dda iawn clywed fod Aneirin Talfan Davies yn gwella bellach ar ôl cyfnod o driniaeth yn Ysbyty'r Waun. Mae wedi bod yn yr ysbyty am y mis diwethaf; gobeithiwn yn awr y caiff wellhad buan ac y bydd adre mewn digon o bryd cyn y Nadolig.**

Rhaid hefyd clywed Per-Yeun Ar Rhun yn siarad am frwydr y gweithwyr ym Mro-Naoned.

Gellir wneud un cwyn yn erbyn y ffilm hwn: ei ddiffyg trefn. Y mae'n amlwg nad oes ffurf iddo. Nid oes ar Fulub Cassard eisiau cynnig ei ffordd ei hun o weld problem Llydaw, ni cheisiodd drefnu pethau er mwyn profi rhywbeth, ni chododd ychwaith unrhyw destun er mwyn esbonio rhywbeth neu'i gilydd. Gadawodd i'r brwydrwyr eu hunain siarad. Os ymddengys y ffilm yn ddidrefn y rheswm mwyaf am hynny yw am nid oes trefn yn y frwydr heddiw. Teimlir yn gryf trwy'r ffilm i gyd bob pobl yn dihuno yn yr orynys hon heddiw. Mae'n syndod y cyffro a geir ym mhobman, ond ni welir yn glir i ba le yr â. A hynny yw problem Llydaw heddiw mewn gwirionedd.

LOÏG MAINGUET
(cyf. COLIN JONES)

*(Ymddangosodd yr erthygl hon yn rhifyn 2 (Chwefror 1976) o'r Cylchgrawn Llydaweg "Keleier an Naoned".)*

# Merched y Wawr (y Barri)

Erbyn hyn mae cangen Merched y Wawr yn y Barri ar ganol tymor arall. Dechreuodd y tymor â chyngerdd llwyddiannus iawn gan Gôr Aelwyd Caerdydd. Cafwyd darlith gan y Parchedig Haydn Thomas ar ei waith dros yr henoed a noswaith lwyddiannus o goginio dan ofal Miss Margaret Evans, pennaeth adran gwyddor tŷ Ysgol Brynhafren y Barri. Byddwn yn cynnal gwasanaeth Nadolig ym mis Rhagfyr, a byddwn yn edrych ymlaen at glywed hanes yr aelodau a aeth i Athen. Yn y flwyddyn newydd bydd Mrs Lena Pritchard Jones yn ein hannerch a Mr Geraint Talfan Davies fydd y gŵr gwadd yn ein cinio.

Ym mis Mawrth byddwn yn croesawu dysgwyr i'n mysg. Mae croeso i unrhyw un sy'n byw yn y cylch i ymuno â ni. Rydym yn cyfarfod ar nos Fawrth gyntaf pob mis am 8 o'r gloch eleni yn festri Bethesda, High Street, Y Barri.

# CARTREF I'R CYMRY

**Y mis hwn cychwynwyd ymgyrch i gael Neuadd Breswyl Gymraeg i fyfyrwyr Cymraeg Caerdydd. Y mae darpariaeth eisoes yn bod ym Mangor, Aberystwyth ac Abertawe, a chwith yw meddwl nad oes dim cyffelyb ym mhrifddinas Cymru. Y mae'r bosibl mai'r cynllun gorau fyddai neuadd yng Ngholeg y Brifysgol gyda lle ynddi i fyfyrwyr o golegau eraill. Ar y llaw arall, efallai mai'r peth hwylusaf fyddai neuadd rhwng yr holl golegau ar y cyd. Ond ar hyn o bryd y peth pwysig yw cael cefnogaeth i'r egwyddor. Neuadd fyddai hon i fyfyrwyr sydd yn siarad Cymraeg ac i leiafrif hefyd a ddeuai yno i ddysgu'r iaith. Os cytunwch â'r egwyddor, byddwch garediced â dangos eich cefnogaeth trwy arwyddo y ddeiseb isod — ac y mae lle i fwy nag un enw os oes cyfeillion yn eich plith â'r un awydd. Torrwch allan y darn priodol a'i yrru gyda'r enwau i'r Golygydd yn ddi-oed.**

NEUADD GOLEG I SIARADWYR A DYSGWYR CYMRAEG

Yn wyneb nifer y Cymry Cymraeg sydd yn derbyn addysg Brifysgol neu Golegol yn Ninas Caerdydd a nifer cynyddol y myfyrwyr sydd ag awydd dysgu Cymraeg, datganwn fod angen sefydlu Neuadd(au) Breswyl Gymraeg yn ddioed.

| ENW | CYFEIRIAD |
| --- | --- |


# NADOLIG LLAWEN

tra'n gwylio a gwrando



### HWYRNOS
*nos Wener, 24 Rhagfyr am 10.30 yng nghwmni Gwyn Erfyl*

Ymhlith y rhai yn cymryd rhan cewch weld a chlywed Meibion Menlli, Côr Cerdd Dant Neuadd Pantycelyn, Aberystwyth, Sara Tudor, Eleri ac Arwel Peleg Williams, Y Parch John Alun Roberts a'r Capten John Alun Jones, **cyfle i wrando ar y diweddar Tegla a'i atgof am Nadolig bachgen ym Mwlchgwyn, a** Richard Arwel a'i gitar.

### CAROLAU – CAROLS
*dydd Sadwrn, 25 Rhagfyr am 11a.m.*

Y Parch Gwynfryn Lloyd Davies, Wrecsam yn cyflwyno rhaglen o garolau yng nghwmni Y Diliau, Cantorion Ardwyn a Chôr Gwerin Y Gader.

### CELEBRATION
*nos Sadwrn, 25 Rhagfyr am 11.05 (rhaglen Saesneg o Gymru i Wledydd Prydain)*

Syr Geraint Evans, Petula Clark, Ray Smith, Angharad Rees, Y Diliau, Cantorion Ardwyn, Côr Eglwys Gadeiriol Llandaf, Dawnswyr Olive Guppy, Cerddorfa Cwmni Opera Genedlaethol Cymru, arweinydd Owain Arwel Hughes. **Gwelir y rhaglen hon hefyd ar deledu yn Yr Iwerddon ac yng Nghanada dros gyfnod y Nadolig.** Recordiwyd y rhaglen yng Nghastell Coch ger Caerdydd.

### SIÔN A SIÂN
*2.15p.m. Dydd Nadolig*

Ar ddydd Nadolig am 2.15p.m. gwelir rhaglen arbennig o 'Siôn a Siân' yng nghwmni Dai Jones a Jenny, a gwŷr a gwragedd o Lanelli, Sir Fôn, Caerfyrddin a Threffynnon.

### BREUDDWYD BLOD
*dydd Llun, 27 Rhagfyr am 3.40p.m.*

Miss Blodyn Tatws yn cyflwyno troeon trwstan 'Miri Mawr' yn ystod 1976. Bydd rhaid ymuno!


### Y FLWYDDYN
*nos Fawrth, 28 Rhagfyr am 10.25*

Gwilym Owen yn cymryd golwg yn ôl tros y flwyddyn — tameidiau blasus 'Yr Wythnos' yn ystod 1976.

HTV CYMRU WALES

O'r Ganolfan Deledu, Caerdydd

# NEWYDDION CWM RHYMNI



## D.W. DAVIES

Fe ddigwydd yn aml fod newyddion trist a newyddion hapus yn cyrraedd yr un pryd. Bu ffawd yr un mor eironig mis diwethaf. Roedd Ysgol Gymraeg Rhymni wrthi'n brysur yn dathlu ei phenblwydd yn un ar hugain mlwydd oed (bydd rhagor o fanylion am y dathliadau yn y golofn hon yn y flwyddyn newydd) ac yn edrych yn ôl ar gyfnod llwyddiannus ac ar ei chyfraniad gwerthfawr i fywyd y dref. Daeth wedyn y newyddion trist am farwolaeth D.W. Davies a fu, hyd yn ddiweddar, yn Swyddog Addysg Rhanbarthol Cwm Rhymni. Roedd Mr Davies yn amlwg am ei gyfraniad i addysg yn y Cwm dros gyfnod o ddeng mlynedd ar hugain a mawr hefyd oedd ei ddylanwad ymysg gweithgareddau diwylliannol yr ardal, yn arbennig ym maes cerddoriaeth. Roedd D.W. yn ymfalchio yn llwyddiant ysgubol ysgolion Cymraeg y Cwm ac fe ddywedodd yn gyhoeddus fwy nag unwaith ei fod yn ystyried sefydlu'r ysgolion hyn yn ei ranbarth yn uchafbwynt ei fywyd proffesiynol. Mae dathliadau Ysgol Gymraeg Rhymni, felly, yn deyrnged deilwng i goffáu'r gŵr annwyl hwn.

## MUDIAD ADDYSG

Mae rhieni ysgolion Cymraeg y Cwm wedi dod at ei gilydd i gychwyn ymgyrch 'Addysg Gymraeg Cwm Rhymni'. O weld y datblygiad cynyddol ym myd addysg feithrin yn y Cwm, daeth cynrychiolwyr o'r pedair Cymdeithas Rieni a phobl gefnogol eraill ynghyd i drafod y broblem. Etholwyd Doug Nelmes, Cadeirydd Pwyllgor Rhieni Ysgol Ifor Bach, yn Gadeirydd y pwyllgor a John Davies, Trysorydd Cymdeithas Rieni Ysgol Caerffili, yn Ysgrifennydd. Cynrychiolir rhieni ysgolion Bargoed a Rhymi ar y pwyllgor yn ogystal.

Y prif broblem yn y Cwm ar hyn o bryd yw fod dwy o'r ysgolion Cymraeg yn orlawn. Mae'r rhieni wrthi'n casglu ffigyrau i'w galluogi i roi pwysau ar y Pwyllgor Addysg i sefydlu dwy ysgol newydd fel mater o frys. Bu Ysgol Gymraeg Caerffili yn llawn ers dwy flynedd a dwy ystafell ddosbarth dros dro yno i lenwi'r bwlch. Bellach nid oes lle i'r un dosbarth arall er y bydd ei angen erbyn mis Medi nesaf. Barn y pwyllgor, felly, yw ei fod yn hanfodol sefydlu ysgol gynradd Gymraeg newydd yng nghyffiniau Caerffili ac un arall, am resymau tebyg, yn ardal Bargoed.

Yn ogystal, mae pwyllgor 'Addysg Gymraeg Cwm Rhmyni' yn galw am sefydlu Ysgol Uwchradd Gymraeg yn y Cwm o fewn tair mlynedd. Byddai hyn yn ddatblygiad naturiol yn sgîl y chwyddiant yn y nifer sy'n mynychu'r ysgolion cynradd Cymraeg.

## MOI

Un o'r anfanteision o fod mor agos i Gaerdydd yw fod cynifer o athrawon yn gweithio yn y Cwm ond yn diflannu am bedwar o'r gloch i fyw yn y ddinas ac mae perygl colli eu cyfraniad i'r gymdeithas leol. Ar ôl cyfnod alltud fel dinesydd, braf felly yw gallu croesawu Moi Parry — a'i wraig Heddys wrth gwrs — i dŷ yn Senghennydd o fewn tafliad carreg i Ysgol Ifor Bach lle mae Moi yn dysgu. Mae'n siwr y bydd cyfraniad y ddau i'r cylch yn un hynod o werthfawr.

## CALENDR RHAGFYR

Ar Ragfyr 16 bydd Gwyndaf Breeze yn ymweld â'r gangen i siarad am lwyau serch. 'Noson o Gawl a Charol' yw teitl noson ar raglen Cymdeithas Gymraeg Caerffili ar nos Lun, Rhagfyr 20, a bydd yr adloniant yng ngofal Catrin Rowlands a phlant ysgolion lleol.

## DATHLU DWYNWEN

Ar ôl llwyddiant mawr noson Cylch Meithrin Radur i ddathlu Gŵyl y Santes Dwynwen y llynedd, fe fydd y Cylch yn cynnal noson arall debyg eleni. Cynhelir y digwyddiad yng Nghanolfan Adloniant Clwb Meddygol Ysbyty'r Waun nos Sadwrn, Ionawr 29ain. Bydd eich tocyn (£1.50) yn sicrhau noson o adloniant difyr, canu a dawnsio a llond bol o fwyd! Dewch yn llu — bydd yr elw i gyd yn mynd i gynnal Cylch Meithrin Radur am flwyddyn arall.


MOUNT SORREL

HEOL PORTHCERI
Y BARRI, DE MORGANNWG 740069

**A.A **R.A.C.

GWESTY GYDA 40 O YSTAFELLOEDD GWELY.
(35 gyda ystafelloedd ymolchi preifat.)
Teledu Lliw, Radio a Ffôn ymhob ystafell.

CYNADLEDDAU
PRIODASAU
CINIO A DAWNS


DEWCH I'R BARRI
unrhyw amser

* * *

GWYLIAU GAEAF
£15.00 i gynnwys y dreth arwerth

Ystafell fwyta a bariau cyhoeddus

CASTELL CAERDYDD



Pan ddaw'r haf, a phetrol yn ddrud; cewch gipolwg ar hanes Castell Caerdydd, sy'n ymestyn dros bedair canrif ar bymtheg.

GYDA'R BWS — HEB FFWS

### LLOND YR HOSAN

*(parhad o dud 9)*

gwahanol ddarganfyddiadau, lle mae hynny'n bosibl: e.e. yn y bennod ar Radio, sonnir am arbrofion Marconi gyda throsglwyddiadau radio o Larnog gerllaw Penarth; yn yr adran ar argraffu, nodir teitlau'r llyfrau Cymraeg cyntaf a gafodd eu hargraffu.

Yn sicr, dylai fod lle anrhydeddus i'r gyfrol wych hon ar silff lyfrau pob plentyn Cymraeg ei iaith sydd a diddordeb yn y byd o'i gwmpas. Diolch eto i Wasg y Dref Wen am sicrhau y bydd y Nadolig hwn yn un mor llawen i gymaint o blant Cymru.

## POBL Y CWM

**Diwrnod pwysig i holl ffans *Pobl y Cwm* oedd dydd Sadwrn, Rhagfyr 11eg pan gyhoeddwyd llyfr Tom Richards sydd wedi'i seilio ar y gyfres hon (Gwasg Gomer — clawr papur). I ddathlu'r achlysur, roedd Rachel Thomas (sy'n chwarae Bella yn y gyfres) yn Siop y Triban y bore hwnnw o 10.30a.m. hyd hanner dydd, i gwrdd â'r cyhoedd ac i arwyddo copïau o'r gyfrol.**

# Mae'r Llewod yn dal i ruo

**Neges bwysig at bob plentyn: os nad ydych wedi cystadlu yng nghystadleuaeth anferth Clwb y Llewod eto, ewch ati ar unwaith. Dyma gyfle i chi ennill mordaith gyffrous draw i Wlad Llychlyn a nôl ar y llong fawreddog, y "Prins Oberon" — ond cofiwch, mae'r gystadleuaeth yn cau ar Ionawr 1af 1977. Os mai chi'r rhieni sy'n darllen, beth am wneud yn siwr na fydd y plant yn colli'r cyfle bendigedig hwn drwy brynu'r ddwy gyfrol ddiweddaraf yng nghyfres y Llewod iddynt; ceir ffurflen ymaelodi â'r clwb, a manylion y gystadleuaeth yng nghefn y ddwy gyfrol.**

Os oes 'na rai pobl yn dal i fod heb ddim cliw am be dwi'n siarad, wel son ydw i, wrth gwrs, am y cyfrolau diweddaraf yn y gyfres o straeon antur i blant gan Dafydd Parri, a gyhoeddir gan y Lolfa. Mae'r awdur a'r cyhoeddwr ill dau yn dal i gadw at eu haddewid anhygoel o gynhyrchu dwy gyfrol newydd deirgwaith y flwyddyn ac ym mis Tachwedd, cyhoeddwyd rhifau 7 ac 8 yn y gyfres, sef *Y Llewod ar Bigau'r Drain* a *Y Llewod yn Dal Ysbryd*.

Bydd y gyfrol *Y Llewod ar Bigau'r Drain* o ddiddordeb arbennig i blant Caerdydd gan fod yr awdur yn cyflwyno'r llyfr i Blant Ysgol Bryntaf — tipyn o anrhydedd iddynt! Heblaw am hynny, mae'r stori'n un dda na ddylai'r un plentyn sy'n mwynhau darllen fod hebddi. Yr un fformiwla a ddefnyddir ag yn y llyfrau blaenorol: tipyn o hiwmor, tipyn o wrthdaro (gydag oedolion a gyda'i gilydd pan fyddan nhw'n cweryla) a chryn dipyn o ddirgelwch — ac yn amlwg, mae'r fformiwla hon yn gweithio. Cynhelir yr elfen o dyndra yn dda iawn, yn enwedig gyda salwch rhyfedd Llinos yn rhan olaf y llyfr — ac erys y dirgelwch heb ei ddatrys hyd y tudalen olaf ond un.

Mae *Y Llewod yn Dal Ysbryd* yn cyfuno mwy fyth o elfennau cyferbyniol o antur a hiwmor: ysbrydion dychrynllyd mewn hen blas — a lleidr sy'n dwyn cathod! Y Llewod yn darganfod stafell gyfrin ym muriau'r hen blas — ac yn llwyddo i ymosod ar ei gilydd yn y tywyllwch drwy gamgymeriad! Mae cefndir y stori ei hun — sef ysbrydion yn hen Blas Madyn — i'w gyferbynnu â'r drwgweithredwyr meidrol, yn cadw'r diddordeb hyd y diwedd. Er bod dirgelwch y lladron wedi 'i ddatrys gryn dipyn cyn diwedd y llyfr, wyddwn ni ddim, hyd yn oed ar y dudalen olaf, a yw ysbryd Lowri Cadwaladr yn dal i gerdded ai peidio!

Mae 'na wyth o gyfrolau yn y gyfres hon erbyn hyn, felly prin y gall neb gwyno bellach fod prinder deunydd darllen Cymraeg i blant hŷn. Mae'r Nadolig yn gyfle gwych, wrth gwrs, i lenwi bylchau; does ond gobeithio y bydd rhieni, ewythredd a modrybedd yn manteisio arno i wneud yn siwr na fydd yr un plentyn sy'n mwynhau darllen heb set gyflawn o'r straeon cyffrous hyn.

---

Carai'r Bwrdd Golygyddol gydnabod yn ddiolchgar gymorth ariannol Cymdeithas Gelfyddydau De-ddwyrain Cymru.

---

# Hyn o Fyd

**Tipyn o ddigwyddiad yw cyhoeddi llyfr Cymraeg ar Archaeoleg, pwnc sy'n mynd yn fwy fwy poblogaidd o flwyddyn i flwyddyn, yn bennaf drwy ddylanwad y teledu. Pan yw'r llyfr hwnnw yn gynhyrchiad mor wych â chyfrol BBC Cymru/ Macdonald Educational *Archaeoleg* (y gyfrol gyntaf yn y gyfres *Hyn o Fyd*), yna mae'r digwyddiad yn troi'n achlysur i'w gofio.**

Cyhoeddwyd y gyfrol hon i gyd-redeg â chyfres uchelgeisiol BBC Cymru ar gyfer ysgolion, *Hyn o Fyd*, sy'n ymdrin ag archaeolig eleni. Mae'n siwr fod y gyfres a'r gyfrol i ryw raddau yn ddibynnol ar ei gilydd, y naill yn taflu goleuni ar y llall, ond gallaf dystio, fel person sydd heb weld yr un o'r rhaglenni teledu, i mi gael pleser digymysg o ddarllen y gyfrol hyfryd hon gyda'i lluniau lliwgar a'i llu o fapiau a deiagramau defnyddiol.

Mae'r cyflwyniad drwyddi draw yn syml ac yn glir — rhinweddau arbennig gan ystyried cymhlethdod rhai o'r pynciau yr ymdrinir â hwy, a'r ffaith mai at blant ysgol y mae'r gyfrol wedi ei hanelu. Heblaw am ymdrin â rhai o wareiddiadau enwocaf y byd, megis Groeg a Rhufain, Yr Aifft, Caerdroea, Tseina, Ur y Caldeaid, ac olion yr Aztec a'r Inca, mae'r gyfrol yn cyffwrdd ag agweddau mwy ymarferol ar waith yr archaeolegwr ei hun, ac yn ymdrin â mathau llai cyffredin o ymchwil archaeolegol. Felly, fe geir penodau ar archaeoleg ddiwydiannol, archaeoleg danfor (archwilio hen longau wedi 'u dryllio) a phroblem oesol archaeolegwyr heddiw, sef y ras yn erbyn amser i allu archwilio hen safleoedd yn ein trefi mawr cyn iddynt ddiflannu am ganrifoedd eto o dan adeiladau newydd.

Ymdrinir â'r dechneg archaeolegol ei hun: gwaith ymarferol ar safle archaeolegol; sut mae dehongli'r hyn a ddarganfyddir a'i ddyddio; sut mae adfer creiriau brau; sut mae mesur ac archwilio safle.

Pleser yw argymell y gyfrol hon yn wresog i bob plentyn.

"Hyn o Fyd: Archaeoleg" BBC Cymru/Macdonald Educational £1.95.

**Oriel**

53 Heol Siarl Caerdydd
Teliffon: 0222 395548

SIOP LYFRAU
AR DDAU LAWR
YN AWR

Y LLAWR CYNTAF.
Llyfrau Cymraeg, Eingl-Gymreig,
Y Ddrama, Barddoniaeth Saesneg,
Llenyddiaeth Geltaidd,
Recordiau, Posteri,
Cardiau cyfarch a Nadolig.

YR IS-LAWR.
Llyfrau Celf, Pensaernïaeth,
Ffotograffiaeth,
Sinema a Llyfrau i Blant.

GALWCH HEIBIO.

# Tuag at Ewrop rydd?

**Mae ceisio bwrw golwg beirniadol dros y gyfrol sylweddol hon ychydig bach fel ceisio adolygu gwyddoniadur; bron yn 800 tudalen o hyd, mae'n siwr o fod ymhlith y llyfrau mwyaf a gyhoeddwyd gan unryw wasg Gymreig yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rhaid diolch cyn dechrau i Wasg Gomer am fentro cyhoeddi gwaith mor faith â hwn yn y sefyllfa economaidd sydd ohoni; ni ellir ond gobeithio y bydd yn gwerthiant yn cyfiawnhau eu menter.**

Gyda'i drylwyrdeb diarhebol, y mae'r awdur wedi dwyn trefn ar yr holl wybodaeth a gasglodd dros y blynyddoedd mewn cyflwyniad sy'n dethol a didoli'r ffeithiau, a'u corlannu'n ddisgrifiadau hynod ddarllenadwy ar hanes, diwylliant, gwleidyddiaeth, economeg a sefyllfa gyfoes lleiafrifoedd ieithyddol Gorllewin Ewrop (a phwy fuasai wedi dychymygu eu bod mor niferus — dros hanner cant ohonynt.) I gwblhau'r darlun, rhydd hefyd ddisgrifiad manwl o'r cyd-destun gwleidyddol y ceir y lleiafrifoedd hyn ynddo heddiw, gan bwyso a mesur llwyddiant a methiant y gwladwriaethau llywodraethol yn eu hymdriniaeth o'u "trefedigaethau mewnol."

Y mae'r awdur yn rhannu'r lleiafrifoedd ieithyddol hyn yn ddau gategori. Yn gyntaf, ceir y bobloedd hynny sy'n siarad ieithoedd "mwyafrifol" megis Almaeneg, Eidaleg, Iseldireg ond sydd, oherwydd ffiniau gwladwriaethol yr Ewrop sydd ohoni, wedi eu gwahanu oddi wrth wlad eu mamiaith, ac yn ddinasyddion gwledydd eraill. Hwyrach mai gyda'r ail gategori yr ymddiddorwn ni fwyaf, fel Cymry, sef y lleiafrifoedd hynny sydd â'i hiaith arbennig eu hunain, sydd ddim yn iaith swyddogol yr un wlad arall. Lleiafrifoedd cenedlaethol yw'r rhain yn aml iawn, megis y Basgiaid a'r Cataluniaid yn Sbaen, y Cymry ym Mhrydain a'r Llydawyr yn Ffrainc.

Mae llawr o ffactorau dirwasgol, yn economaidd ac yn ddiwylliannol, yn gyffredin i'r rhan fwyaf o'r lleiafrifoedd cenedlaethol hyn. Mae hanes tebyg iawn gan lawer ohonynt: un genedl (megis y Ffrancwyr, siaradwyr *la langue d'oil*, y Castilliaid neu'r Saeson) yn ceisio adeiladu gwladwriaeth ganolog gref drwy ymestyn ei thiriogaeth i gynnwys y cenhedloedd o'i chwmpas; bodolaeth lleiafrifoedd cenedlaethol o'r fath y tu fewn i wladwriaeth "unedig" yn peryglu undod a nerth y wladwriaeth honno, a hynny felly yn arwain at ormes y mwyafrif ar y lleiafrif, ac ymdrechion i ddifodi iaith y lleiafrif, y ffactor bwysicaf er cynnal ymwybyddiaeth genedlaethol. Ydy, mae'r stori'n un gyfarwydd i ni yng Nghymru.

Mesur o lwyddiant y polisiau hyn erbyn heddiw yw'r ffaith fod cymaint o genhedloedd bach Ewrop heddiw yn ddim byd ond gweddillion pobloedd yn byw mewn rhanbarthau tlawd, yn or-ddibynnol ar y diwydiant mwyaf dinistriol hwnnw, twristiaeth, yn gweld eu tir a'u tai yn cael eu gwerthu i estroniaid, a'u pobl ifanc yn gorfod ymfudo i ddinasoedd estron i edrych am waith, gan golli pob cysylltiad â'u hiaith a'u gwreiddiau. Onid yw'r disgrifiad o agwedd Ffrainc tuag at Lydaw: "C'est belle mais c'est triste" (tud 400) yn gweddu i lawer iawn o genhedloedd bach Ewrop erbyn heddiw?

Ond mae yna, wrth gwrs, wahaniaethau enfawr rhwng sefyllfa gwlad a gwlad, cenedl a chenedl, o fewn y fframwaith honno, a dyna sy'n gwneud y llyfr hwn mor ddiddorol, Cawn ein tywys ganddo o wlad Belg, lle mae'r frwydr ieithyddol rhwng y Ffleminigiad a'r Walwniaid bron â bod wedi dymchel y wladwriaeth ei hun - i Iwerddon, lle crewyd gwladwriaeth i ddiogelu iaith, i raddau helaeth, er na wireddwyd mo'r delfryd hwnnw hyd y dydd heddiw; o Gatalunia, lle mae rhyw bum miliwn o'r boblogaeth o chwe miliwn yn siarad y Gatalaneg — i Gernyw, lle bu'r iaith farw'n gyfangwbl dros ganrif yn ôl, ond lle mae cnewyllyn bach o genedlaetholwyr wrthi bellach yn ail-ddysgu'r Gernywedg ac wrthi'n ceisio atgyfodi hen wlad eu tadau.

Nid mentro damcaniaethu a thynnu casgliadau cyffredinol oedd amcan yr awdur: heblaw am ymdrech fwriadol i ddryllio'r hen syniadaeth afiach mai'r un peth yw cenedl a gwladwriaeth (y syniadaeth sydd wedi esgor ar y bwystfil cymysgryw hwnnw, "the British people", chwedl gweision y wladwriaeth Brydeinig), prif bwrpas y gyfrol hon, yng ngeiriau'r awdur ei hun oedd darparu "a handbook, a guide or introduction to this vast subject." Y mae wedi cyflawni'r bwriad hwnnw yn gampus: yn ychwanegol at y wybodaeth eang a gynhwysir yng nghorff y llyfr ei hun, mae'r llyfryddiaeth werthfawr (bron 30 tudalen o hyd) yn goleuo'r ffordd tuag at ymchwil bellach i'r neb sy'n ymddiddori yn y pwnc hwn.

Gyda'r ffeithiau a'r ystadegau yn arfau yn ein dwylo, ein cyfrifoldeb ni ein hunain yw tynnu'r casgliadau, dysgu'r wers hanesyddol a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

*"Linguistic Minorities in Western Europe" gan Meic Stephens. 796tt. Gwasg Gomer £9.50.*


## GWASG PRIFYSGOL CYMRU

6 Gwennyth Street, Cathays, Caerdydd CF2 4YD

### YMWELIAD YR HEN FONEDDIGES
Cyfres 'Dramâu'r Byd'

*Friedrich Dürrenmatt. Cyfieithwyd gan John Gwilym Jones a G.L. Jones. tt. 110. Pris: 70c. Cludiad: 14c.*

Cyfieithiad o gomedi drasig gan y dramodydd o'r Swistir, Friedrich Dürrenmatt, enillydd Gwobr Llenor Rhyngwladol 1976 Cyngor Celfyddydau Cymru.

### Y TESTAMENT NEWYDD CYMRAEG 1551 - 1620

*Isaac Thomas. tt. 488. Pris: £6. Cludiad: 70c.*

Yn y gyfrol hon, adroddir hanes cyfieithu'r Testament Newydd i'r Gymraeg. Canolir y sylw ar ddarganfod cynseiliau'r fersiynau Cymraeg, ac ar ddod o hyd i egwyddorion a dulliau'r cyfieithu. Yn gefndir i'r ymchwil, amlinellir hanes argraffu'r Testament Groeg a chyhoeddi'r fersiynau Ewropeaidd o'r Testament.

### BETH YW CYMRO?

*Pris: 60c. Cludiad: 32c.*

Oes rhai nodweddion sy'n arbennig i'r Cymro? Yn y rhifyn dwbl hwn o *Y Gwyddonydd*, gwahoddwyd nifer o arbenigwyr i ateb y cwestiwn mewn perthynas â'u maes arbennig.

Beth am alw i weld rhain a'n holl lyfrau eraill yn adeilad y Wasg (ger Heol y Crwys)?



## RICHARD BOOTH (BOOKSELLERS) LTD

yw'r gwerthwyr llyfrau ail-law mwyaf ond un yn yr holl fyd, gyda saith siop wahanol yn Y Gelli, a rhyw filiwn o lyfrau ar werth ynddynt bob amser. Mae'r siopau i gyd ar agor ddydd Sadwrn ac erys rhai ohonynt ar agor dros y Sul hefyd. Prynnir a gwerthir pob math o lyfrau ail-law, a chroesewir ymwelwyr o bob math (byddai'n well gennym pe bai modd i bartïon drefnu eu hymweliadau ymlaen llaw).

*The Castle*
*Hay-on-Wye*
*via Hereford*
*POWYS*

*Hay-on-Wye 322*

**Dosbarth Allanol Coleg y Brifysgol, Caerdydd.**

**Cynhelir y cwrs canlynol o ddarlithiau o dan nawdd yr Adran Allanol yn Sain Ffagan o 10a.m. hyd hanner dydd:**

| | | |
|---|---|---|
| Ionawr 11 | T.M. Owen | Torri mawn |
| Ionawr 25 | Dr. Gwenllian Awbery | Cipolwg ar y gorffennol — y tafodieithoedd yn newid |
| Chwefror 8 | Dr. Ilid Anthony | Rhai gwisgoedd o'r casgliad |
| Chwefror 22 | J. Geraint Jenkins | Y Diwydiant Gwlân |
| Mawrth 8 | Eurwyn Wiliam | Melin Bompren |

Am fanylion pellach, danfoner at Dr. Meredydd Evans, Adran Efrydiau Allanol, Coleg y Brifysgol, 39 Park Place, Caerdydd.

# DINAS POWYS

**Trwy wahoddiad caredig Sister Eluned Williams, fe ddaeth holl aelodau'r Gymdeithas ynghyd yn "Ardwyn" — cartre'r *National Children's Home* ar y Pumed o Dachwedd. Paratowyd coelcerth anferth ar y cae wrth ochr "Ardwyn" ac fe gasglodd pawb ynghyd i weld sioe hyfryd o dân gwyllt — rocedi a sêr a chanhwyllau o bob math. Diolch i holl aelodau'r gymdeithas am ddod â'u cyfraniad o dân gwyllt i wneud y noson yn un llwyddiannus a chofiadwy i'r Gymdeithas ac i blant "Ardwyn".**

Ar ôl i'r goelcerth ddiffodd, fe aeth pawb i mewn i'r caban clyd ar faes chwarae "Ardwyn" i gael cawl blasus a baratowyd gan wragedd y Pwyllgor ac i brofi'r "Punch" arbennig o dda o wneuthuriad Mr Oscer Williams a'i wraig Susan.

* * *

Llongyfarchiadau i Dilwyn a Pat Samuel ar enedigaeth merch fach sef Delyth Mai, eu cyntafanedig.

* * *

Croeso i bawb i'r Noson Garolau yn Eglwys Sant Pedr, nos Lun 20fed o Ragfyr. Fe fydd y noson dan arweiniad y Rheithor, y Parch J. Lloyd Richards. Dewch yn llu i ymuno yn y gân ar ddechrau wythnos y Nadolig.

OWENA HOPWOOD, Cadeirydd.

## GWYLNOS Y NADOLIG

**Unwaith eto eleni, bydd Cape Ebeneser yn cynnal Gwasanaeth Gwylnos Nadolig ar y 24ain am 11.15p.m. Gwasanaeth cyd-enwadol fydd hwn, ac estynnir croeso mawr i bawb i ddod i gapel Ebeneser y noson honno i ddathlu Gŵyl y Nadolig.**

# Anrheg i'r Dinesydd

A hithau'n dymor y Nadolig, yng nghanol yr holl alwadau eraill sydd ar logell dyn, a gawn ni wneud apel arbennig ar ran *Y Dinesydd* am gyfraniad gennych i gadw'r papur ar ei draed am flwyddyn arall? Mae'n siwr fod pawb wedi hen flino clywed mor simsan yw hi ar y papur yn ariannol, ond dyw'r ffaith fod pobl yn syrffedu ar glywed hynny ddim lleihau dim ar gostau cynhyrchu'n papur bob mis. Felly, os gwelwch yn dda, pe medrech chi sbario *rhywbeth*, mawr neu fach, i hosan Nadolig *Y Dinesydd*, byddem yn hynod o ddiolchgar i chi.

ENW . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

CYEIRIAD . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

Amgaeaf £ . . . . . yn rhodd Nadolig i'r Dinesydd ☐

Hoffwn ffurflen Archeb Banc er mwyn cyfrannu'r ☐ rheolaidd i'r DINESYDD

Dychweler y ffurflen hon at: Mr Geraint Walters<br>Trysorydd *Y Dinesydd*<br>29 The Rise<br>Llanishen, Caerdydd

(rhodder tic yn y blwch priodol)

THEATR COLEG Y BRIFYSGOL CAERDYDD
SHERMAN
THEATRE OF UNIVERSITY COLLEGE CARDIFF

Rhag 14-17 10.30a.m. & 2.30p.m. — Rhag 18 2.30p.m. & 6p.m. — Rhag 28-Ion 5 2.30p.m. & 6p.m.
THEATR CARICATURE
THE SNOW QUEEN
Hans Anderson, gyda masgiau a phypedau, i blant o 5-12 70c

Rhag 28-Ion 8 2p.m. & 7.30p.m.
DAVID KIRK PRODUCTIONS
CHARLEY'S AUNT
Ffars anfarwol Brandon Thomas gyda ALAN ROTHWELL fel Fancourt Babberley £1.50, £1.00, 70c.

Ion 11-15 7p.m. o Merch a Iau 2 p.m.
THEATR CYMRU
MADOG
Pantomeim 75c

Swyddfa Docynnau
CAERDYDD 25855
Llun-Sad 10a.m.-6p.m.

# Ble mae'r Cymru'n cadw?


(parhad o dud 1)

Esra Cwch Angau, Dafydd Arian-Pobl-Eraill ac eraill — ar y testun "Digrifwch mewn Llenyddiaeth", i aelodau'r Gymdeithas Lenyddol. Oeddech chi ddim yn gwybod fod y fath gymdeithas yn bod? Rhag cywilydd! Rhaid i chi ddarllen y 'small print' yn "Y Dinesydd" yn fwy gofalus o hyn ymlaen. Sgwrs hynod o ddifyr a chnewyllyn o ddifrifwch ynddi a gafwyd nos Fercher, yn frith o hiwmor arbennig y Doctor, sydd yn gymysgedd rhyfedd o ysmaliwr ac ysgolhaig, ac yn wir, yn adroddwr medrus gyda tyts (neu 'touch' os mynnwch chi) o actor hefyd.

Nos Wener, yn ôl eto i Adeilad y Dynoliaethau i flasu "Rhai Agweddau ar Ddysg y Gogynfeirdd" a ddarparwyd inni gan Mr D. Myrddin Lloyd, a'r gwesteion yn fwy niferus a pharchus ac academaidd y tro hwn, a minnau'n teimlo fel pysgodyn allan o ddŵr ond yn hen gyfarwydd â'r cyflwr hwn erbyn hyn. Er bod yr arlwy honno, rhaid i mi gyfaddef, yn drech na'm harchwaeth, 'doedd dim dwywaith amdani fod y gwesteion eraill yn ei mwynhau'n fawr iawn, ac yr oedd Mr Myrddin Lloyd yn westeiwr hael ei ysgolheictod — yr un mor hael â Mynyddawg Mwynfawr ei fedd, a'r Tywysogion a gafodd eu moli yn ddiweddarach gan y Gogynfeirdd eu hunain.

Swm a sylwedd hyn i gyd yw, yn gyntaf, fy ngwerthfawrogiad o wythnos fel hon a'r paratoi a oedd yn cael ei wneud ymlaen llaw tu ôl i'r llen; ac yn ail, syndod fod cyn lleied o bobl yn y Brifddinas, mewn cyfnod fel hyn o argyfwng, yn manteisio ar y cyfle o glywed yr iaith yn cael ei siarad mor fedrus. Ai oherwydd difaterwch, ai diffyg amser, dyletseyddau eraill, neu..........Y TELEDU?

DOROTHY WOOD



CANIBAL CANON

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd, Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf, 134 Ffordd Parc Ninian, Caerdydd; ffôn: 28917.*
*Hysbysebu gan Gyhoeddiadau ap Dafydd Cyf, 55 Heol Eglwys Gadeiriol Isa, Caerdydd; ffôn: 396262.*